# Sut i gymryd rhan yn Nhaith Gerdded y Draenogod fel Ysgol neu Feithrinfa

Hwre! Mae eich dosbarth chi wedi cofrestru ar gyfer Taith Gerdded y Draenogod! Gobeithio eich bod yn edrych ymlaen at gerdded dros fywyd gwyllt.

Eich her chi yw i'ch dosbarth gerdded 3km rhwng 31ain Mawrth a 13eg Ebrill 2025! Mae hynny'n swnio fel pellter mawr. Ond oeddech chi'n gwybod bod draenogod yn gallu cerdded 3km mewn un noson yn unig? A bydd pob cam y bydd eich dosbarth yn ei gymryd yn helpu bywyd gwyllt fel draenogod i ffynnu. I'ch helpu chi i gael y gorau o'ch her codi arian, rydyn ni wedi ymuno â'n ffrindiau yn Timmy Time. Yn ogystal â chodi arian ar gyfer bywyd gwyllt, byddwch yn archwilio ac yn dysgu am fyd natur.

## Cynllunio eich Taith Gerdded y Draenogod

Mae cymryd rhan yn Nhaith Gerdded y Draenogod yn gyfle gwych i chi fwynhau symud yn hamddenol, cael llawer o awyr iach a darganfod mwy am ein byd naturiol ni. Ar yr adeg yma o'r flwyddyn, byddwn yn dechrau gweld llawer o fywyd gwyllt y gwanwyn, gan gynnwys draenogod, yn dod allan o'u gaeafgwsg! Felly, gwisgwch yn gynnes a chodi allan i'r awyr agored i gwblhau Taith Gerdded y Draenogod. Does dim rhaid i chi a'ch dosbarth fynd yn bell i gymryd rhan! Beth am gwblhau eich taith gerdded o amgylch eich maes neu gae chwarae? A pheidiwch â gadael i dywydd gwlyb eich rhwystro chi – fe allwch chi gwblhau Taith Gerdded y Draenogod yn neuadd yr ysgol hyd yn oed. Gallwch gwblhau Taith Gerdded y Draenogod mewn un diwrnod neu ei lledaenu dros bythefnos – chi sydd i dewis!

## Rhannwch eich camau

Nawr mae'n amser dweud wrth bawb beth yw eich cynlluniau chi! Gallwch argraffu posteri o'n tudalennau adnoddau i'w gosod o amgylch eich ystafell chwarae neu ystafell ddosbarth.
Argraffwch eich ffurflenni nawdd a gofyn i deulu a ffrindiau noddi Taith Gerdded y Draenogod eich dosbarth! Neu gallwch rannu dolen i dudalen codi arian bersonol eich dosbarth fel bod pobl yn gallu cyfrannu ar-lein.

## Cael hwyl!

Mae llawer o gyfleoedd i ddysgu am fywyd gwyllt wrth i chi gwblhau eich Taith Gerdded y Draenogod! Beth am lawrlwytho eich Taflen Adnabod eich hun i weld pa fywyd gwyllt y gallwch chi ei weld wrth i chi gwblhau eich taith gerdded? Mae gan yr Ymddiriedolaethau Natur adnoddau Timmy Time gwych i'r rhai iau sy'n hoff o fywyd gwyllt eu mwynhau ac i helpu i'w hannog nhw i ofalu am ein byd gwyllt rhyfeddol a'i gefnogi.

## Dathlu eich llwyddiant

Ar ôl i chi gwblhau eich Taith Gerdded y Draenogod, lawrlwythwch eich tystysgrifau i bob disgybl fynd adref gyda nhw. Hefyd, os bydd eich dosbarth wedi codi £30 neu fwy, byddwn yn anfon taflen sticeri Taith Gerdded y Draenogod atoch chi, i'ch dosbarth eu gwisgo gyda balchder!

## Pob lwc!




The Wildlife Trusts: Bringing Back Wildlife. Registered charity number 207238 and © TM Aardman Animations Ltd 2025. All rights reserved